# CBAC Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

## Uned 8: Cefnogi iechyd a llesiant oedolion yng Nghymru i sicrhau canlyniadau cadarnhaol

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

I'w asesu gyntaf o 2024

## Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (Mewnol)

Fersiwn 3 - Ionawr 2024



# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Ychwanegu'r gair 'priodol' yn Nhasg 1 (c). | 2, 8 |
| | Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr wedi'u diweddaru i adlewyrchu fformat yr asesiad byw | 1 |
| 2b | Disodlwyd y term 'sicrhau' gan 'gyflawni' er mwyn eglurder drwy'r fanyleb, gan gynnwys teitl Uned 8.' | Drwy'r DAE |
| 3 | Diweddarwyd datganiadau Taflen Farciau'r Ganolfan. | 11 |

© WJEC CBAC Cyf.

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Aseiniad | 1 |
| Cynllun marcio | 5 |
| Mapio | 12 |


© WJEC CBAC Cyf.

**LEFEL 3 – NEWYDD**

4973N80-1

**MEDI 2023 AR GYFER 2024**

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

**UNED 8 ASESIAD DI-ARHOLIAD: Cefnogi iechyd a llesiant oedolion yng Nghymru i gyflawni canlyniadau cadarnhaol**

15 awr

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

**BYDD GENNYCH CHI GYFANSWM O 15 AWR I GWBLHAU'R ASESIAD HWN.**

**Tasg 1: Adroddiad**

Dylech chi dreulio tua **10 awr** yn cwblhau'r dasg hon.
Gallwch chi ddefnyddio'r adnoddau canlynol wrth gwblhau'r dasg hon:

- meddalwedd TGCh
- astudiaeth achos
- nodiadau dosbarth. Dylai'r rhain gynnwys uchafswm o 6 ochr papur A4. Gallwch chi ysgrifennu'r rhain â llaw neu ar brosesydd geiriau. Dylen nhw fod yn eich geiriau eich hun ac ni allwch gynnwys atebion sydd wedi'u hysgrifennu ymlaen llaw. Eich athro/aseswr sy'n gyfrifol am adolygu'r nodiadau er mwyn sicrhau eu bod nhw o fewn y canllawiau uchod. Rhaid i'r ganolfan gadw'r holl nodiadau sy'n cael eu defnyddio yn ystod yr asesiad.

**Ni allwch ddefnyddio'r rhyngrwyd wrth gwblhau'r dasg hon.**

**Tasg 2: Llyfryn gwybodaeth**

Dylech chi dreulio tua **5 awr** yn cwblhau'r dasg hon.
Gallwch chi ddefnyddio'r adnoddau canlynol wrth gwblhau'r dasg hon:

- meddalwedd TGCh
- astudiaeth achos
- nodiadau dosbarth. Dylai'r rhain gynnwys uchafswm o 6 ochr papur A4. Gallwch chi ysgrifennu'r rhain â llaw neu ar brosesydd geiriau. Dylen nhw fod yn eich geiriau eich hun ac ni allwch gynnwys atebion sydd wedi'u hysgrifennu ymlaen llaw. Eich athro/aseswr sy'n gyfrifol am adolygu'r nodiadau er mwyn sicrhau eu bod nhw o fewn y canllawiau uchod. Rhaid i'r ganolfan gadw'r holl nodiadau sy'n cael eu defnyddio yn ystod yr asesiad.

**Ni allwch ddefnyddio'r rhyngrwyd wrth gwblhau'r dasg hon.**

© WJEC CBAC Cyf.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae eich athro'n gallu eich helpu chi i ddeall y briffiau aseiniad a'r tasgau, ond mae yna reolau am y math o gymorth a faint o gymorth mae eich athro'n gallu ei roi i chi. Dylech chi siarad â'ch athro os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â beth rydych chi'n cael ei wneud a ddim yn cael ei wneud wrth gwblhau'r tasgau; bydd yr athro yn gwybod faint o gymorth mae'n gallu ei roi i chi.

Mae'n bwysig eich bod chi'n gweithio'n annibynnol ar yr ymgeiswyr eraill ac yn sicrhau mai eich gwaith chi eich hun yn unig yw'r gwaith sy'n cael ei gynhyrchu. Bydd angen i chi a'ch athro lofnodi datganiad mai eich gwaith chi eich hun yw'r holl waith sy'n cael ei gyflwyno.

Dylech chi wirio eich gwaith yn ofalus i wneud yn siŵr ei fod yn fanwl gywir.

© WJEC CBAC Cyf.

## Aseiniad

Mae Mervyn yn 36 oed, mae ganddo syndrom Tourette, ac mae'n byw gyda'i dad, Geoff, sy'n 72 oed.

Bu farw mam Mervyn pan oedd yn 6 oed ac, ers hynny, mae ganddo broblemau ymlyniad sydd wedi arwain at byliau o ymddygiad ymosodol ac iselder. Mae gan Mervyn hanes o hunan-niweidio hefyd. Mae Mervyn wedi defnyddio nifer o wasanaethau gofal a chymorth yn ystod ei oes, gan gynnwys canolfannau teuluol integredig a grwpiau cefnogi. Ers i Mervyn ddechrau gweithio, mae wedi llwyddo i ffynnu heb gefnogaeth gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Dros yr wyth mlynedd diwethaf, mae Mervyn wedi bod yn gweithio o 9am tan 1pm o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ei siop fach leol. Gwnaeth Mervyn feithrin perthynas dda â'i gydweithwyr a bu gwelliant amlwg yn ei ymddygiad. Daeth yr hunan-niweidio i ben ac roedd y pyliau o ymddygiad ymosodol gan Mervyn tuag at ei dad yn digwydd yn llai aml.

Yn anffodus, caeodd y siop yn ddiweddar, ac mae Mervyn yn ddi-waith. Erbyn hyn, mae Mervyn yn treulio hyd at 18 awr y dydd wedi'i ynysu yn ei ystafell wely. Mae wedi colli'r hyder roedd wedi'i fagu i gymdeithasu ac mae hefyd wedi dechrau smygu. Mae Geoff yn pryderu'n arw am iechyd meddwl Mervyn ac yn poeni nad yw'n bosibl i Mervyn gyflawni ei nod o fod mewn gwaith a ffurfio a chynnal perthnasoedd mwyach. Felly, mae Geoff wedi penderfynu ceisio cefnogaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Mae meddyg teulu Mervyn wedi'i atgyfeirio'n ôl at wasanaethau gofal a chymorth er mwyn iddo allu cael mynediad at ofal a chymorth unwaith eto, yn ogystal â chwnselydd sy'n ffafrio'r dull ymddygiad gwybyddol.

## Tasg 1

Fel myfyriwr iechyd a gofal cymdeithasol lefel 3 sy'n cysgodi cyd-drefnydd gofal, gofynnwyd i chi lunio adroddiad ar yr angen i gefnogi a gwella iechyd a llesiant yr unigolyn a enwir yn yr astudiaeth achos. Fel rhan o'r adroddiad, bydd angen i chi ystyried sut y byddai'r unigolyn hwn yn cael cefnogaeth effeithiol i gyflawni ei ganlyniadau iechyd a llesiant personol. Drwy gydol yr adroddiad, rhaid i chi gyfeirio at Mervyn, y dull a enwir (*therapi ymddygiadol gwybyddol*) ac, yn y pen draw, dylech gyflawni awgrymiadau ar gyfer cefnogi ei iechyd a'i lesiant.

Rhaid i'ch adroddiad wneud y canlynol:

a. Esbonio'r darpariaethau iechyd a gofal cymdeithasol posibl sydd ar gael yng Nghymru er mwyn cefnogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol.

   Rhaid i'ch ateb gyfeirio at y canlynol:
   - y ddarpariaeth sydd ar gael i gefnogi'r unigolyn a enwir
   - asesiadau priodol i ganfod beth yw anghenion yr unigolyn a enwir a sut y dylid cynnal yr asesiadau hyn
   - sut y gellir darparu gwasanaethau gofal a chymorth er mwyn galluogi'r unigolyn a enwir i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

[22 marc]

b. Disgrifio'r gwahanol ddulliau hybu iechyd a all gael eu defnyddio i hybu a diogelu iechyd meddwl a llesiant yr unigolyn a enwir.

[10 marc]

c. Archwiliwch gryfderau a chyfyngiadau dulliau a thechnegau priodol a all gael eu defnyddio i gefnogi iechyd a llesiant yr unigolyn. Rhaid i therapi ymddygiadol gwybyddol fod yn un o'r dulliau y byddwch yn eu harchwilio.

[18 marc]

**Cyfanswm Marciau: [50 marc]**

© WJEC CBAC Cyf.

**Tasg 2**

Mae'n ofynnol i chi lunio llyfryn gwybodaeth ar gyfer Mervyn er mwyn awgrymu dulliau o gefnogi ei batrymau ymddygiad cadarnhaol a strategaethau i'w helpu i gyflawni ei nodau llesiant.

Rhaid i'ch llyfryn amlinellu gwahanol strategaethau a dulliau ar gyfer cefnogi'r unigolyn i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol.

[10 marc]

**Cyfanswm Marciau: [10 marc]**

**Cyfanswm Marciau (Tasg 1 a Thasg 2): [60 marc]**

© WJEC CBAC Cyf.

**Cynllun marcio wedi'i gwtogi yw hwn. Mae'r fersiwn cyflawn gyda'r cynnwys dangosol yn rhan ohono i'w gael ar wefan ddiogel CBAC** CBAC (wjecservices.co.uk)

## Cynllun Marcio:

### Tasg 1

| (a) | **Esbonio'r darpariaethau iechyd a gofal cymdeithasol posibl sydd ar gael yng Nghymru er mwyn cefnogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol.** [22 marc] |
|---|---|
| **Band** | *AA2: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.* |
| **5** | **18 marc**<br>Mae'r adroddiad yn rhoi esboniad ardderchog sy'n:<br>• dangos dealltwriaeth fanwl a hyderus o'r gofal a'r cymorth sydd ar gael i'r unigolyn drwy ddarpariaeth statudol, annibynnol a thrydydd sector yng Nghymru.<br>• dangos dealltwriaeth hyderus o'r ffordd y gellid asesu anghenion yr unigolyn er mwyn ei gefnogi i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol.<br>• cyfeirio'n ardderchog at y ffordd y gellir darparu gwasanaethau gofal a chymorth er mwyn galluogi'r unigolyn i gyflawni canlyniadau llesiant personol. |
| **4** | **14-17 marc**<br>Mae'r adroddiad yn rhoi esboniad da iawn sy'n:<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â'r gofal a'r cymorth sydd ar gael i'r unigolyn drwy ddarpariaeth statudol, annibynnol a thrydydd sector yng Nghymru.<br>• dangos dealltwriaeth hyderus ar y cyfan o'r ffordd y gellid asesu anghenion yr unigolyn er mwyn ei gefnogi i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol.<br>• cyfeirio'n dda iawn at y ffordd y gellir darparu gwasanaethau gofal a chymorth er mwyn galluogi'r unigolyn i gyflawni canlyniadau llesiant personol. |
| **3** | **10-13 marc**<br>Mae'r adroddiad yn rhoi esboniad da sy'n:<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda ynglŷn â'r gofal a'r cymorth sydd ar gael i'r unigolyn drwy ddarpariaeth statudol, annibynnol a thrydydd sector yng Nghymru.<br>• dangos dealltwriaeth dda o'r ffordd y gellid asesu anghenion yr unigolyn er mwyn ei gefnogi i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol.<br>• cyfeirio'n dda at y ffordd y gellir darparu gwasanaethau gofal a chymorth er mwyn galluogi'r unigolyn i gyflawni canlyniadau llesiant personol. |
| **2** | **6-9 marc**<br>Mae'r adroddiad yn rhoi esboniad sylfaenol sy'n:<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir ar y cyfan ynglŷn â'r gofal a'r cymorth sydd ar gael i'r unigolyn drwy ddarpariaeth statudol, annibynnol a/neu drydydd sector yng Nghymru.<br>• dangos rhywfaint o ddealltwriaeth dda o'r ffordd y gellid asesu anghenion yr unigolyn.<br>• cyfeirio i ryw raddau at y ffordd y gellir darparu gofal a chymorth er mwyn galluogi'r unigolyn i gyflawni canlyniadau llesiant personol. |

© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **1** | **1-5 marc**<br>Mae'r adroddiad yn rhoi esboniad cyfyngedig sy'n:<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig ynglŷn â gofal a chymorth sydd ar gael i'r unigolyn drwy ddarpariaeth statudol, annibynnol a/neu drydydd sector yng Nghymru.<br>• dangos fawr ddim dealltwriaeth o'r ffordd y gellid asesu anghenion yr unigolyn.<br>• cyfeirio fawr ddim, os o gwbl, at sut y gellir darparu gwasanaethau gofal a chymorth. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

| (b) | **Disgrifiwch y gwahanol ddulliau iechyd a all gael eu defnyddio i hybu a diogelu iechyd meddwl a llesiant yr unigolyn a enwir.** **[10 marc]** |
|---|---|
| **Band** | *AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol.* |
| **4** | **8-10 marc**<br>Mae'r adroddiad yn rhoi disgrifiad ardderchog sy'n:<br>• cyfeirio'n ardderchog at wahanol ddulliau iechyd a all gael eu defnyddio i hybu a diogelu iechyd meddwl a llesiant yr unigolyn.<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a thrylwyr ynglŷn â'r gwahanol ddulliau iechyd a all gael eu defnyddio. |
| **3** | **6-7 marc**<br>Mae'r adroddiad yn rhoi disgrifiad da sy'n:<br>• cyfeirio'n dda at wahanol ddulliau iechyd a all gael eu defnyddio i hybu a diogelu iechyd meddwl a llesiant yr unigolyn.<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â'r gwahanol ddulliau iechyd a all gael eu defnyddio. |
| **2** | **4-5 marc**<br>Mae'r adroddiad yn rhoi disgrifiad sylfaenol sy'n:<br>• cyfeirio mewn ffordd sylfaenol at y gwahanol ddulliau iechyd a all gael eu defnyddio i hybu a diogelu iechyd meddwl a llesiant yr unigolyn.<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol ynglŷn â'r gwahanol ddulliau a all gael eu defnyddio. |
| **1** | **1-3 marc**<br>Mae'r adroddiad yn rhoi disgrifiad cyfyngedig sy'n:<br>• cyfeirio fawr ddim, os o gwbl, at y senario.<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig ynglŷn â'r gwahanol ddulliau a all gael eu defnyddio. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

| (c) | **Archwiliwch gryfderau a chyfyngiadau dulliau a thechnegau priodol a all gael eu defnyddio i gefnogi iechyd a llesiant yr unigolyn. Rhaid i therapi ymddygiadol gwybyddol fod yn un o'r dulliau y byddwch yn eu harchwilio. [18 marc]** |
|---|---|
| **Band** | *AA3: Dadansoddi a gwerthuso damcaniaethau ac ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn dangos dealltwriaeth, myfyrio ar y ffordd y gallant ddylanwadu ar ymarfer, ffurfio barn wedi'i rhesymu a dod i gasgliadau.* |
| **5** | **17-18 marc**<br>Mae'r adroddiad yn rhoi ymateb ardderchog sy'n dangos archwiliad manwl a thrylwyr o gryfderau a chyfyngiadau dulliau a thechnegau a all gael eu defnyddio i gefnogi iechyd a llesiant yr unigolyn.<br><br>Mae'r dulliau a'r technegau a gaiff eu harchwilio yn briodol i'r unigolyn a enwir. |
| **4** | **13-16 marc**<br>Mae'r adroddiad yn rhoi ymateb da iawn sy'n dangos archwiliad trylwyr o gryfderau a chyfyngiadau dulliau a thechnegau a all gael eu defnyddio i gefnogi iechyd a llesiant yr unigolyn.<br><br>Mae'r dulliau a'r technegau a gaiff eu harchwilio yn briodol i'r unigolyn a enwir. |
| **3** | **9-12 marc**<br>Mae'r adroddiad yn rhoi ymateb da sy'n dangos archwiliad o gryfderau a chyfyngiadau dulliau a thechnegau a all gael eu defnyddio i gefnogi iechyd a llesiant yr unigolyn.<br><br>Mae'r dulliau a'r technegau a gaiff eu harchwilio yn briodol i'r unigolyn a enwir. |
| **2** | **5-8 marc**<br>Mae'r adroddiad yn rhoi ymateb sylfaenol sy'n dangos archwiliad sylfaenol o'r dulliau a'r technegau a all gael eu defnyddio i gefnogi iechyd a llesiant yr unigolyn. Gall yr ateb fod ar ffurf rhestr, ond gan gynnwys cryfder neu gyfyngiad dulliau a/neu dechnegau. Gall y cryfderau a'r cyfyngiadau fod yn gyfyngedig eu cwmpas.<br><br>Efallai na fydd yr holl ddulliau a thechnegau a gaiff eu harchwilio yn briodol i'r unigolyn a enwir. |
| **1** | **1-4 marc**<br>Mae'r adroddiad yn rhoi ymateb cyfyngedig nad yw'n dangos rhyw lawer o archwiliad o'r dulliau a'r technegau a all gael eu defnyddio i gefnogi iechyd a llesiant yr unigolyn. Efallai na fydd yr ateb yn cyfeirio at yr unigolyn. Mae'n bosibl mai dim ond disgrifiad o ddull a/neu dechneg a fydd yn yr ateb, heb gyfeiriad at gryfderau na chyfyngiadau.<br><br>Efallai na fydd y dulliau a'r technegau a gaiff eu harchwilio yn briodol i'r unigolyn a enwir. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

## Tasg 2

| | |
|---|---|
| | **Mae'n ofynnol i chi lunio llyfryn gwybodaeth ar gyfer Mervyn er mwyn awgrymu dulliau o gefnogi ei batrymau ymddygiad cadarnhaol a strategaethau i'w helpu i gyflawni ei nodau llesiant.**<br><br>**Rhaid i'ch llyfryn amlinellu gwahanol strategaethau a dulliau ar gyfer cefnogi'r unigolyn i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol. [10 marc]** |
| **Band** | *AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol.* |
| **4** | **8-10 marc**<br>Mae'r llyfryn yn rhoi amlinelliad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â sut y gellid defnyddio strategaethau a dulliau i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol ar gyfer yr unigolyn. |
| **3** | **6 marc**<br>Mae'r llyfryn yn rhoi amlinelliad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â sut y gellid defnyddio strategaethau a dulliau i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol ar gyfer yr unigolyn. |
| **2** | **4 marc**<br>Mae'r llyfryn yn rhoi amlinelliad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â sut y gellid defnyddio strategaethau a dulliau i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol ar gyfer yr unigolyn. |
| **1** | **1 marc**<br>Mae'r llyfryn yn rhoi amlinelliad cyfyngedig nad yw'n dangos fawr ddim gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â sut y gellid defnyddio strategaethau a dulliau i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol ar gyfer yr unigolyn. Mae'n bosibl na fydd cyfeiriad at yr unigolyn ac y bydd yn canolbwyntio'n bennaf ar beth yw'r strategaeth a'r dull heb amlinellu sut y gall gefnogi ymddygiad unigolion. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

**Lefel 3 Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau**

**Asesiad di-arholiad: Uned 8 Tasgau 1 a 2**

**Enw'r Ymgeisydd:** **Rhif yr Ymgeisydd:**

**Enw'r Ganolfan:** **Rhif y Ganolfan:**

| Asesiad di-arholiad: Uned 8 Tasgau 1 a 2 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Tasgau** | **Marc Uchaf** | **Marc y Ganolfan** | **Marc y Cymedrolwr** | **Sylwadau'r Ganolfan** |
| **Tasg 1** | | | | |
| **(a)** | 22 | | | |
| **(b)** | 10 | | | |
| **(c)** | 18 | | | |
| **Tasg 2** | | | | |
| **2** | 10 | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **60** | | | |

© WJEC CBAC Cyf.

| Asesiad di-arholiad: Sylwadau |
|---|
| **I'w gwblhau gan yr unigolyn sy'n goruchwylio'r asesiad di-arholiad.**<br>Nodwch ble cafodd cymorth y tu hwnt i arweiniad goruchwylio arferol ei roi a sut mae hyn wedi effeithio ar y marciau a gafodd eu dyfarnu. |
| |

| Rhestrwch y ffynonellau gwybodaeth a gafodd eu defnyddio wrth ddatblygu'r asesiad di-arholiad |
|---|
| |

| HYSBYSIAD I YMGEISWYR |
|---|
| Rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gyflwyno i'w asesu fod wedi ei wneud gennych chi.<br>Os byddwch chi wedi copïo gwaith rhywun arall, wedi caniatáu i ymgeisydd arall gopïo eich gwaith chi, neu wedi twyllo mewn unrhyw ffordd arall, mae'n bosibl y cewch eich diarddel o'r cymhwyster dan sylw o leiaf. |

| DATGANIAD GAN YR ATHRO | DATGANIAD GAN YR YMGEISYDD |
|---|---|
| Rwy'n cadarnhau bod gwaith yr ymgeisydd wedi ei gyflawni o dan yr amodau a nodwyd yn y fanyleb.<br>Rwyf wedi dilysu gwaith yr ymgeisydd ac rwyf yn fodlon, hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod y gwaith wedi ei gyflawni gan yr ymgeisydd yn unig.<br>Mae'r ymgeisydd wedi cyfeirio'n glir at unrhyw ffynonellau ac unrhyw offer DA a ddefnyddiwyd yn y gwaith. Rydw i'n deall bod gwneud datganiad ffug yn fath o gamymddwyn.<br><br>**Llofnod yr athro:**<br><br>**Dyddiad:** | Rwyf wedi darllen a deall yr **Hysbysiad i Ymgeiswyr** (uchod).<br>Rwyf wedi cynhyrchu'r gwaith a atodir heb gymorth, heblaw am y cymorth hwnnw mae fy athro wedi esbonio ei fod yn dderbyniol o fewn y fanyleb.<br>Yr wyf wedi cyfeirio'n glir at unrhyw ffynonellau ac unrhyw offer DA a ddefnyddiwyd yn y gwaith. Rydw i'n deall bod gwneud datganiad ffug yn fath o gamymddwyn.<br><br>**Llofnod yr ymgeisydd:**<br><br>**Dyddiad:** |

© WJEC CBAC Cyf.

## Mapio tasgau i gynnwys yr uned a'r amcanion asesu

| Tasgau | Cynnwys yr uned | | | | Dyraniad marciau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 8.1 | 8.2 | 8.3 | 8.4 | Cyfanswm Marciau | Marciau AA1 | Marciau AA2 | Marciau AA3 |
| 1 (a) | | | ✓ | | 22 | | 22 | |
| 1 (b) | | | | ✓ | 10 | 10 | | |
| 1 (c) | ✓ | | | | 18 | | | 18 |
| 2 | ✓ | ✓ | | | 10 | 10 | | |
| | | | | **Cyfanswm** | **60** | **20** | **22** | **18** |
| | | | | **Pwysoliadau'r asesiad hwn (%)** | | **33** | **37** | **30** |

© WJEC CBAC Cyf.